



Strategaeth Ddrafft Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Mis Tachwedd - Mis Rhagfyr 2020

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Rhagair

Diolch yn fawr iawn am eich amser a'ch cyfraniadau yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth ddrafft Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor a gynhaliwyd gennym yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr y llynedd.

Roeddem yn gyffrous i glywed gennych yn dilyn y sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a gynhaliwyd gennym ar ddechrau 2020 ar Ddatganiad y Cyngor ar Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol.

Bydd eich adborth yn ein helpu i wella Strategaeth ddrafft Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych, gan sicrhau ein bod yn dechrau ar y sylfaen orau bosibl i'r Cyngor gyflawni ein nodau ecolegol gadarnhaol a di-garbon net erbyn 2030.

Rydym yn cydnabod bod y byd yn edrych yn dra gwahanol o'i gymharu â phan wnaethom ymgysylltu â chi gyntaf yn ôl ym mis Ionawr / Chwefror 2020 ac mae'r Cyngor, ynghyd â'n cymunedau, yn parhau i deimlo effaith sylweddol pandemig y coronafeirws. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n nodau ar fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n cymunedau i'w cyflawni.



Y Cynghorydd Brian Jones
*Aelod Arweiniol Gwastraff,
Cludiant a'r Amgylchedd*



Y Cynghorydd Graham Timms
*Cadeirydd y Gweithgor
Newid Hinsawdd ac
Argyfwng Ecolegol*



Y Cynghorydd Tony Thomas
*Aelod Arweiniol Tai a
Chymunedau*

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Cynnwys

Rhagair	2
Cynnwys	3
Strategaeth Ddrafft Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol	4
Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus	5
Beth wnaethom ei ofyn	5
Sut y gwnaethoch chi gyfrannu	5
Nifer yr ymatebion a gafwyd	5
Yr hyn y dywedoch wrthym	6
Cwestiwn 1 - Ydych chi'n meddwl y dylai CSDd fabwysiadu'r strategaeth?	6
Cwestiwn 2 - Beth ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?	7
Cwestiwn 3 - Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?	9
Cwestiwn 4 – Unrhyw sylwadau eraill?	11
Sut rydym ni'n defnyddio'r adborth a gawsom	12
Beth sy'n digwydd nesaf	13
Sut i gadw mewn cysylltiad	13
Atodiadau	15
Atodiad A - Rhestr o eiriau allweddol a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer Cwestiwn 2 – Beth ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?	15
Atodiad B - Rhestr o eiriau allweddol a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer Cwestiwn 3 – Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?	21

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Strategaeth Ddrafft Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Bu i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) gyhoeddi Argyfwng yr Hinsawdd a'r Ecoleg ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymo i fod yn Gyngor di-garbon net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth.

Mi wnaethom gynnal digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd ym mis Chwefror 2020 yn gofyn am adborth gan y cyhoedd ar nodau ecolegol gadarnhaol a di-garbon net, a'u syniadau at sut y gall y Cyngor eu cyflawni erbyn 2030.

Gan adeiladu ar syniadau'r cyhoedd, rydym wedi gweithio gydag Aelodau a Swyddogion ar draws y Cyngor i ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor (2021/22 – 2029/30).

Mae'r ddogfen yn egluro'r hyn y mae ein nodau i fod yn Gyngor ecolegol gadarnhaol a di-garbon net yn ei olygu, sut mae'r Cyngor yn perfformio o ran y nodau ar hyn o bryd, ein gobeithion fel Cyngor ar gyfer 2030 ar ôl i ni gyflawni ein nodau, a'r newidiadau a'r camau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni dros y 9 mlynedd nesaf.

Cynhyrchwyd fformatau amrywiol o'r Strategaeth ddrafft ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol. Gallwch ddarllen dogfen y strategaeth drwy glicio ar y dolenni isod:

- [Strategaeth Cyngor Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol \(2021/22-2029/30\)](#)
- [Fersiwn addas i bobl ifanc](#)
- [Fersiwn hawdd ei darllen](#)

Rydym hefyd wedi cynhyrchu crynodeb o'n nodau Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net ar ffurf ffeithlun. Gallwch weld y rhain drwy glicio ar y dolenni isod:

- [Crynodeb ffeithlun Di-garbon Net](#)
- [Crynodeb ffeithlun Ecolegol Gadarnhaol](#)

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol CSDd ar 12 Tachwedd a pharhaodd tan 7 Rhagfyr (26 diwrnod).

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn fawr drwy ddatganiadau i'r wasg, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost uniongyrchol i grwpiau postio ac ar dudalen flaen prif wefan a gwefan ymgynghori CSDd.

Beth wnaethom ei ofyn

Gwnaethom ofyn i ymatebwyr ddarllen y strategaeth ddrafft ac ateb y cwestiynau canlynol:

1. Ydych chi'n meddwl y dylai CSDd fabwysiadu'r strategaeth?
2. Beth ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?
3. Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?
4. Unrhyw sylw arall?

Sut y gwnaethoch chi gyfrannu

Cyfrannodd y cyhoedd mewn nifer o ffyrdd:

- Yn ystod cyfarfod zoom cyhoeddus dros y we a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd
- Drwy gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein
- Yn ystod cyfarfod ymgysylltu dros y we gyda Chynghorau Ysgol Ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych
- Yn ystod cyfarfod ymgysylltu dros y we gydag Is-grŵp Newid Hinsawdd TCC (Together Creating Communities).

Nifer yr ymatebion a gafwyd

Cawsom 108 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Dywedodd 92% o ymatebwyr eu bod yn drigolion Sir Ddinbych. Dywedodd 19% o ymatebwyr eu bod yn gyflogeion CSDd. Dywedodd 64% o ymatebwyr eu bod yn aelodau o sefydliad / grŵp cymunedol yn Sir Ddinbych.

Roedd rhaniad oedran yr ymatebwyr fel a ganlyn:

Grŵp Oedran	% o'r holl ymatebwyr
Dan 18 oed	9
18 - 30	5
31 - 55	45
56 - 65	20
Dros 65 oed	12
Heb nodi	9
Cyfanswm	100

Yr hyn y dywedoch wrthym

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n meddwl y dylai CSDd fabwysiadu'r strategaeth?

Ar gyfer y cwestiwn hwn o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i'r ymatebwyr glicio ie neu na.

Atebodd 88% o ymatebwyr 'ie' – y dylai CSDd fabwysiadu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

Atebodd 12% o ymatebwyr 'na' – na ddylai CSDd fabwysiadu'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

O'r 12% a atebodd 'na' - nododd 40% o'r ymatebwyr yn eu sylwadau, er eu bod yn canmol y Cyngor yn ei waith yn y maes hwn, y strategaeth, ac eisiau i'r Cyngor barhau â'i waith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ecolegol / argyfwng hinsawdd, fe wnaethant ateb 'na' oherwydd eu bod o'r farn nad yw'r strategaeth yn ddigon uchelgeisiol. Gwnaethant dynnu sylw at y meysydd canlynol i'w hystyried gan y Cyngor:

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

- I'r cyngor ymyrryd yn weithredol wrth leihau allyriadau ar draws gofod daearyddol Sir Ddinbych gan gynnwys cartrefi, diwydiant / busnes a theithio a defnyddio ynni adnewyddadwy.
- I'r cyngor ymyrryd yn weithredol wrth gynyddu dulliau dal a storio ar draws gofod daearyddol Sir Ddinbych gan gynnwys tir nad yw'n eiddo i CSDd ac ystâd amaethyddol tenantiaeth CSDd.
- I'r cyngor ymyrryd yn weithredol wrth wella bioamrywiaeth ar draws gofod daearyddol Sir Ddinbych gan gynnwys tir nad yw'n eiddo i CSDd ac ystâd amaethyddol tenantiaeth CSDd.
- I'r cyngor gael gwared ar yr holl fuddsoddiadau mewn diwydiannau tanwydd ffosil, gan gynnwys y rhai a ddelir yng Nghronfa Bensiynau Clwyd.

Cwestiwn 2 - Beth ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?

Ar gyfer y cwestiwn hwn o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i'r ymatebwyr deipio mewn blwch testun.

Rydym wedi cynnal dadansoddiad testunol ar y datganiadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr er mwyn gallu nodi geiriau / datganiadau allweddol, grwpio geiriau / datganiadau tebyg a chyfrif pa mor aml y cawsant eu mynegi.

Mae Atodiad A yn rhoi'r rhestr o eiriau / datganiadau allweddol i chi a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer cwestiwn 2.

Mae'r 3 gair / datganiad a fynegir amlaf ar yr hyn y mae ymatebwyr yn ei hoffi am y strategaeth fel a ganlyn:

1. Plannu Coed
2. Camau gweithredu
3. Newid yng Nghyfansoddiad y Cyngor

Mae cwmwl geiriau wedi'i greu i ddarparu crynodeb gweledol o'r ymatebion a gafwyd. Y mwyaf yw'r gair, yr amlaf y cafodd ei ddefnyddio ymhlith ymatebwyr.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb



Darlun 1 – Cwmwl geiriau yn dangos beth mae ymatebwyr yn ei hoffi am y strategaeth

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Cwestiwn 3 - Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?

Ar gyfer y cwestiwn hwn o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i'r ymatebwyr deipio mewn blwch testun.

Rydym wedi cynnal dadansoddiad testunol ar y datganiadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr er mwyn gallu nodi geiriau / datganiadau allweddol, grwpio geiriau / datganiadau tebyg a chyfrif pa mor aml y cawsant eu mynegi.

Mae Atodiad B yn rhoi'r rhestr o eiriau / datganiadau allweddol i chi a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer cwestiwn 3.

Mae'r 3 gair / datganiad a fynegir amlaf ar yr hyn y mae ymatebwyr yn ei hoffi am y strategaeth fel a ganlyn:

1. Cwmpas i'r Cyngor yn unig
- 2=. Nid yw'n cynnwys cymunedau ddigon
- 2=. Does dim digon am deithio llesol

Mae cwmwl geiriau wedi'i greu i ddarparu crynodeb gweledol o'r ymatebion a gafwyd. Y mwyaf yw'r gair, yr amlaf y cafodd ei ddefnyddio ymhlith ymatebwyr.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb



Darlun 2- Cwmwl geiriau yn dangos beth nad yw'r ymatebwyr yn ei hoffi am y strategaeth

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Cwestiwn 4 – Unrhyw sylwadau eraill?

Ar gyfer y cwestiwn hwn o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i'r ymatebwyr deipio mewn blwch testun.

Mae'r rhestr isod yn grynodeb o'r sylwadau a ddarparwyd yn y cwestiwn hwn:

- Sylwadau cyffredinol i gefnogi'r strategaeth a mynegiadau o lawenydd bod y cyngor yn gweithredu ar yr argyfyngau hyn.
- Yn awyddus i weld y cyngor yn bod yn feiddgar yn y rhaglen hon. Gweithredu'n gyflym. Arwain drwy esiampl a rhannu gwersi a ddysgwyd a chynghori / addysgu'r cyhoedd yn ehangach lle bo hynny'n bosibl.
- Pryder ynghylch cysylltu newid yn yr hinsawdd â bod yn ecolegol gadarnhaol yn achosi dryswch.
- Pryder ynghylch pa mor realistig yw'r targed a'r adnoddau i'w gyflawni.
- Anogwyd i edrych ar y cynllun i gwblhau hyfforddiant llythrennedd carbon o fewn yr awdurdod.
- Llauer yn awyddus i weld y newidiadau i'r polisiau cynllunio i gefnogi'r cynllun.
- Codwyd pryderon o ran ailgylchu. Bod y cyngor ddim yn ailgylchu ddigon, ac o ran newid y cynllun ailgylchu cyfredol. Awyddus i osgoi costau cynyddol a sicrhau y gwneir y mwyaf o'r posibilrwydd i ailgylchu.
- Yn awyddus i weld y cyngor (a thrigolion) yn gwneud mwy o ddefnydd o gompostio o wastraff gwyrdd a bio-wrteithwyr.
- Yn awyddus i weld gwelliant mewn isadeiledd EV er mwyn annog y defnydd o gerbydau EV ac addysgu'r cyhoedd amdanyn nhw i ddileu pryderon.
- Dylid annog a chymell teithio llesol os yn bosibl.
- Sylwadau'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Yn awyddus i weld hyn yn cael ei annog o fewn y sir (drwy gynllunio ac ati), ac i CSDd fod yn feiddgar ac arbrofi gyda thechnolegau newydd.
- Nododd adborth gan ysgolion hefyd yr hoffent fod yn gefnogwyr ynni adnewyddadwy a nododd y disgyblion yr hoffent weld paneli solar ym mhob ysgol.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

- Sylwadau'n ymwneud â gweithio o gartref a'r dymuniad i beidio â chau'r holl adeiladau. Awgrymiadau i gadw adeiladau'r cyngor ar agor sy'n hawdd eu cyrraedd yn gynaliadwy.
- Yn awyddus i weld y cyngor yn gweithio gyda'r gymuned a gwirfoddolwyr i gyflawni'r rhaglen gyda'i gilydd.
- Yn awyddus i weld yr ardal ehangach yn cymryd rhan yn yr ymdrechion i leihau allyriadau carbon.
- Yn awyddus i weld y cyngor yn annog ac yn helpu trigolion i fod yn fwy ynni effeithlon yn eu cartrefi.
- Pryder ynghylch plannu coed a p'un a yw hyn yn ddigon o ran y gofynion dal a storio carbon. Yn awyddus i weld mwy o goed yn cael eu plannu a chynyddu ardaloedd gwyllt a helpu peillwyr.
- Yn awyddus i weld ffermydd ac ysgolion y sir yn cymryd rhan yn y nodau i blannu coed ac ati er mwyn helpu i ddal a storio carbon.

Sut rydym ni'n defnyddio'r adborth a gawsom

Bydd yr adborth a gawsom yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i wella'r Strategaeth ddrafft ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn fersiwn derfynol y ddogfen. Mae'r newidiadau a gaiff eu gwneud yn cynnwys:

- Ychwanegu mwy o strategaethau cymorth:
- Ychwanegu adran ar ddechrau'r strategaeth am yr hinsawdd sy'n newid - yr effeithiau sy'n cael eu teimlo rŵan ac yn y dyfodol.
- Darparu gwybodaeth am dargedau interim rhwng rŵan a 2030 ar gyfer faint o garbon yr ydym am ei leihau, cynyddu'r modd i ddal a storio carbon a newidiadau i gyfoeth rhywogaethau yr ydym yn disgwyl eu gweld.
- Ei gwneud yn gliriach lle gall y Cyngor ddefnyddio ei ddylanwad i sicrhau gostyngiad carbon, cynyddu'r modd i ddal a storio carbon a gwella bioamrywiaeth ar draws Sir Ddinbych.
- Ychwanegu camau gweithredu at newidiadau'r polisi a rhestrau'r prosiect.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

- Darparu mwy o wybodaeth am sut y bydd cynnydd y Cyngor o ran cyflawni statws Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net yn cael ei fonitro bob blwyddyn.
- Ychwanegu mwy o wybodaeth at yr adran gan egluro sut y byddwn yn rhannu'r hyn y byddwn wedi ei ddysgu ag eraill.

Beth sy'n digwydd nesaf

Caiff y strategaeth derfynol ei hystyried mewn cyfarfod Cabinet gyda'r argymhelliad bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r strategaeth. Yna bydd y strategaeth derfynol yn cael ei hystyried mewn cyfarfod y Cyngor Llawn gyda'r argymhelliad i fabwysiadu'r strategaeth. Yn y ddau gyfarfod hyn, bydd gofyn i Aelodau'r Cabinet a'r Cyngor Llawn bleidleisio ar p'un a ddylid mabwysiadu'r strategaeth ai peidio. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u trefnu ar gyfer mis Chwefror 2021.

Unwaith y bydd yn ei le, bydd ein Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn arwain y Cyngor yn ei waith i leihau allyriadau carbon, cynyddu'r modd i ddal a storio carbon a gwella bioamrywiaeth i gyflawni ei nodau o ddod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-Garbon Net erbyn 2030.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd gwaith yn gallu symud ymlaen mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol oherwydd yr effaith sylweddol y mae pandemig y coronafeirws wedi'i gael ar y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n nodau ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n cymunedau i'w cyflawni.

Sut i gadw mewn cysylltiad

Os gwnaethoch chi gyflwyno adborth ar-lein a chytuno i dderbyn gwybodaeth a diweddariadau wedi'u targedu ar y rhaglen hon wrth i ni symud ymlaen, byddwch wedi cael eich ychwanegu at restr bostio e-bost Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor. Defnyddir y rhestr bostio e-bost hon fel ffordd o gyfathrebu ar gyfer diweddariadau, gwybodaeth a rhoi gwybod am gyfleoedd i ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach ar y rhaglen hon.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Aeth set o dudalennau gwe newydd yn fyw mis Tachwedd 2020 ar wefan y Cyngor gyda gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd a newid ecolegol a chamau gweithredu parhaus y Cyngor wrth fynd i'r afael ag o. Gallwch weld y set o dudalennau gwe yma:

www.sirddinbych.gov.uk/iechyd-yr-amgylchedd/newid-hinsawdd-ac-ecolegol.

Bydd trafodaethau ar Borth Sgwrsio'r Sir yn fuan. Byrddau negeseuon yw trafodaethau.

Byddwn yn nodi neges am bwnc a gallwch bostio'ch atebion, ac ymateb i bobl eraill.

Rydym yn cychwyn Trafodaethau gyda chyfres o bynciau yn ymwneud â Newid Hinsawdd ac Ecolegol i barhau â'r sgwrs gyda chi ar y rhaglen bwysig hon. Bydd yn rhaid i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Y Panel. Dylech weld opsiwn 'Discussions/Trafodaethau' ar frig eich bwrdd gwaith neu borwr gwe symudol. Ar ôl i chi glicio arno, gallwch weld ac ymuno ag unrhyw Drafaeth fyw. Gallwch fynd at Borth Sgwrs y Sir a mewngofnodi neu gofrestru ar gyfer eich cyfrif Y Panel yma: <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk>.

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Atodiadau

Atodiad A - Rhestr o eiriau allweddol a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer Cwestiwn 2 – Beth ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?

DATGANIAD AR “BETH YDYCH CHI’N EI HOFFI”	CYFRIF
Plannu Coed	9
Camau gweithredu	8
Newid i'r cyfansoddiad	7
Gweithredu ar argyfwng yn yr hinsawdd	6
Ychwanegu at swydd-ddisgrifiadau	6
Ymrwymiad	6
Ymgysylltu â'r cyhoedd	6
Hyfforddiant Llythrennedd Carbon	5
Eglur	5
Dull cam wrth gam	5
Diogelu bywyd gwylt	4
Buddion i ysgolion	4
Rheoli asedau a newid strategaethau	3
Cwmpasu llawer o feysydd	3
Gwella Bioamrywiaeth	3
Rheoli llifogydd yn naturiol	3
Agored i gyfleoedd y dyfodol	3
Strategaethau eraill	3

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Ymgysylltu â staff	3
Targedau	3
Creu blodau gwyllt	3
Fformatau hygyrch	2
Cyflawnadwy	2
Goleuo gwell	2
Defnyddio tir yn well	2
Newidiadau i brosesau caffael	2
Traws-Gyngor	2
E-newyddlen	2
Hyblyg	2
Meddwl i'r dyfodol	2
Cyfannol	2
Adfer Natur	2
Di-garbon Net	2
Cadarnhaol	2
Newidiadau i brosesau caffael	2
Darllen yn rhwydd	2
Ailgylchu	2
Llai o dorri ymylon	2
Lleihau teithio	2
Hyfforddiant ar gyfer ysgolion	2

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Meithrinfeydd coed	2
Gwerthfawr	2
Dyddiad targed - 2030	1
Mynd i'r afael â'r mater	1
Rhandiroedd	1
Adroddiad Blynyddol	1
Newid ymddygiad	1
Prynu i mewn	1
Newidiadau i'r CDLI	1
Newidiadau i'r polisi cynllunio	1
Newid templedi achosion busnes	1
Eglurder	1
Cysur	1
Canmoladwy	1
Cyfathrebu	1
Manteision Cymunedol	1
Twf Cymunedol	1
Cynhwysfawr	1
Cryno	1
Ystyrlon	1
Hyfforddiant i Gynghorwyr	1
Cyflawnadwy	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Manwl	1
Hawdd ei ddeall	1
Eco Hamdden	1
Eco Dwristiaeth	1
Gwaith hanfodol	1
Ardderchog	1
Trac Cyflym	1
Dilys	1
Ffordd dda ymlaen	1
Defnyddiol	1
Gobaith	1
Newid ar unwaith	1
Trawiadol	1
Yn gwella	1
Cynyddu tir coediog	1
Mae'n bodoli!	1
Mwy na swm rhannau	1
Lleol	1
Cynnal glaswelltir	1
Ystyrlon	1
Optimistaidd	1
Cyffredinol	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Dull graddol	1
Cynlluniau	1
Newidiadau i bolisiâu	1
Newidiadau i brosesau	1
Blaengar	1
Prosiectau	1
Hyrwyddo polisiâu amgylcheddol y CDLI	1
Meintioledig	1
Lleihau papur	1
Canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio	1
Gwrthdroi'r difrod	1
Adolygu polisi safleoedd diangen ysgolion yr 21ain ganrif	1
Mannau gwyrdd ysgolion	1
Ardaloedd gwyllt ysgolion	1
Cwmpas	1
Sicrhau dyfodol cynaliadwy	1
Creu esiampI	1
Amrywiaeth rhywogaethau	1
Glaswelltir cyfoethog eu rhywogaethau	1
Penodol	1
Man dechrau	1
Strategol	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Wedi'i dargedu	1
O'r brig i lawr	1
Gwir gost	1
Gweledigaeth	1
Croesawgar	1
Cost bywyd cyfan	1
Gweithio o gartref	1
Gweithio gyda'r trydydd sector	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

Atodiad B - Rhestr o eiriau allweddol a pha mor aml y cawsant eu mynegi ar gyfer Cwestiwn 3 – Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y strategaeth?

DATGANIAD AR “BETH NAD YDYCH CHI’N EI HOFFI”	CYFRIF
Cwmpas i'r Cyngor yn unig	15
Nid yw'n cynnwys cymunedau ddigon	9
Dim digon am deithio llesol	9
Cost	5
Nid yw'n cynnwys busnesau ddigon	5
Nid yw'n ddigon uchelgeisiol	5
Nid yw'n defnyddio'r holl ddylanwadau	5
Diffyg ymdeimlad o frys	4
Dim digon o ffocws ar ynni adnewyddadwy	4
Di-bapur mewn ysgolion	3
Dim digon manwl	3
Dim digon o waith gydag ysgolion	3
Nid yw'n gwneud adeiladau eco yn hanfodol	3
Newid yn rhy gyflym	2
Nid yw'n cynnwys teithio ar draws y sir	2
Nid yw'n cynnwys y perygl o beidio â gweithredu	2
Dim digon o fonitro	2
Diffyg eglurder	2
Dim grantiau ar gyfer cymunedau	2

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH NAD YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Dim targedau interim	2
Dim dargyfeirio tanwydd ffosil	2
Dim adran ar effaith ar yr hinsawdd	2
Dim digon o hyfforddiant llythrennedd carbon	2
Dim digon o ffocws ar fwyd	2
Dim digon ar yr angen i wneud penderfyniadau anodd	2
Dim digon radical	2
Tai cymdeithasol heb eu cynnwys	2
Allyriadau'r gadwyn gyflenwi ar wahân	2
Gweithio o gartref	2
Diflas	1
Prynu tir	1
Mesuriad amsugno carbon	1
Nid yw'n cynnwys ystadau amaethyddol	1
Nid yw'n cynnwys trwyddedu	1
Dim arloesi	1
Ailgylchu clytiau	1
Angen mwy o gyfranogiad gan CD, T a Ch	1
Dim grantiau ar gyfer ffermwyr	1
Dim Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Llangollen	1
Dim cysylltiad â phrentisiaethau	1
Dim cysylltiad ag iechyd y cyhoedd	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH NAD YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Dim cyfeiriad at Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	1
Dim cyfeiriad at gorsydd mawn	1
Dim digon ar ailgylchu mewn ysgolion	1
Dim digon o gyfathrebu	1
Dim digon o ffocws ar danwydd hydrogen	1
Dim digon o ffocws ar ddad-ddofi tir	1
Dim digon o sôn am les	1
Dim digon ar lobïo	1
Dim digon ar ailgylchu mewn ysgolion	1
Dim digon o blannu coed	1
Dim digon o waith gyda Threfi	1
Nid yw'n canolbwyntio ar ddarparu swyddi	1
Nid yw'n fesuradwy	1
Gwrthbwyso	1
Tai preswyl heb eu cynnwys	1
Chwerthinllyd	1
Codi ofn	1
Pwyntiau gwefru EV i staff sy'n gweithio o gartref	1
Rhy hir	1
Gormod o ffigurau	1
Gormod o blannu coed	1
Dwy nod mewn un strategaeth	1

Ymgynghoriad Cyhoeddus Crynodeb o'r Ymateb

DATGANIAD AR "BETH NAD YDYCH CHI'N EI HOFFI"	CYFRIF
Afrealistig	1